Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Materion Sgrinio

## Mae ein gwefan sgrinio wedi newid





Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adnewyddu ei wefan. Cafodd gwelliannau sylweddol eu gwneud i'r wefan newydd sy'n golygu bod pobl yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn haws ac yn gynt. Mae'r wefan yn hygyrch ac wedi'i dylunio fel bod yr wybodaeth yn glir, yn hawdd ei deall ac yn syml i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais.

O ganlyniad i'r broses adnewyddu hon, mae'r tudalennau gwe sgrinio wedi newid. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth gywir bob amser:

- defnyddiwch swyddogaeth chwilio'r wefan i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am sgrinio;
- edrychwch ar yr adran **Adnoddau** ar bob un o dudalennau gwe'r rhaglenni sgrinio i ddod o hyd i daflenni sgrinio a fformatau hygyrch, e.e. gwybodaeth yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac mewn fformat Hawdd ei Ddeall;
- diweddarwch unrhyw nodau tudalen neu ddolenni rydych chi'n eu defnyddio fel bod y tudalennau sgrinio wedi'u cadw yn eich tab ffefrynnau; ac
- ewch i'r tudalennau newydd i wirio bod yr wybodaeth fwyaf cywir ar gael yn gyflym pan fydd ei hangen arnoch chi.

Helpwch ni i wella'r wefan drwy rannu eich adborth gan ddefnyddio'r ffurflen ar frig y dudalen.
[Sgrinio - Iechyd Cyhoeddus Cymru]



## Diweddariad Sgrinio'r Ysgyfaint Cymru

Mae tîm prosiect sgrinio'r ysgyfaint yn gweithio tuag at gyflwyno rhaglen genedlaethol ar gyfer sgrinio canser yr ysgyfaint yng Nghymru. Bwriedir cyflwyno'r rhaglen o fis Ebrill 2028. Bydd yn cael ei chyflwyno fesul cam dros nifer o flynyddoedd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflenwi ar draws ystod eang o ffrydiau gwaith, sy'n cynnwys:

- **Nodi'r cyfranogwyr cymwys**: Nod y rhaglen yw datblygu dull cenedlaethol o wahodd cyfranogwyr cymwys, yn seiliedig ar eu hoedran a'u hanes ysmygu.
- **Caffael:** Mae nifer o brosiectau caffael sylweddol ar y gweill, yn cynnwys systemau rheoli gwybodaeth ddigidol, sganio CT a gofynion ar gyfer unedau symudol.
- **Y Gweithlu:** Mae timau newydd yn cael eu sefydlu. Mae'r rhaglen yn datblygu cynlluniau recriwtio a swydd-ddisgrifiadau ar hyn o bryd y mae eu hangen er mwyn darparu gwasanaeth sgrinio'r ysgyfaint yng Nghymru.
- **Llwybrau clinigol a sicrhau ansawdd:** Mae protocolau, safonau a threfniadau goruchwylio yn cael eu sefydlu i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni i'r safonau uchaf.

- **Gweithio gyda phartneriaid:** Mae ymgysylltu â phartneriaid wedi bod yn rhan allweddol o'r rhaglen hyd yma, a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Byrddau Iechyd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac eraill sy'n angenrheidiol i gynllunio a darparu'r gwasanaeth. Mae timau hefyd yn gweithio gyda'r trydydd sector a'r cyhoedd i ddatblygu adnoddau ategol. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen newydd hon.

## Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu

Mae Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu ar draws pob un o'r rhaglenni sgrinio. Bydd yr hyrwyddwyr yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i wella'r ffordd rydym yn cefnogi pobl ag anabledd dysgu ar draws ein gwasanaethau. Mae ein hyrwyddwyr yn aelodau o staff o bob rhan o'r sefydliad sy'n awyddus i wella profiadau pobl o sgrinio. Mae hwn yn gam allweddol wrth gryfhau ein hymrwymiad i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i sicrhau bod ein gwasanaethau yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. I gael gwybod mwy am yr Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu, gallwch gysylltu â'r rhaglenni sgrinio unigol.

## Adnoddau Newydd




### Fideo newydd ar sgrinio llygaid diabetig

Mae fideo newydd ar sgrinio llygaid diabetig '**Sgrinio Llygaid Diabetig – Beth i'w Ddisgwyl**' ar gael yn **Gymraeg**, **Saesneg** ac yn **Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**. Cynhyrchwyd y fideo gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio, Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, gyda chefnogaeth y rhaglen 'Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd', sy'n rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r fideo yn helpu pobl i ddeall beth yw sgrinio llygaid diabetig a pham ei fod yn bwysig. Mae'n dangos y broses sgrinio llygaid ar gyfer diabetes, o'r gwahoddiad i'r canlyniadau, gan egluro sut y tynnir ffotograffau sgrinio llygaid a pha gymorth sydd ar gael.

Gallwch chi helpu drwy wneud y canlynol:

- Rhannu'r fideo gyda'ch rhwydweithiau cymunedol.
- Dangos y fideo i ddefnyddwyr gwasanaethau a chleifion.
- Codi ymwybyddiaeth o'r fideo ar eich platfformau cyfryngau cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth am Sgrinio Llygaid Diabetig, ewch i'w **tudalen** we.




### Taflen gymunedol

Mae'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn datblygu taflen gymunedol newydd sy'n rhoi gwybodaeth i bobl am sgrinio a'r rhaglenni sydd ar gael. Bydd hyn yn ychwanegu at ystod yr **adnoddau** sydd eisoes ar gael i bartneriaid cymunedol eu defnyddio a'u rhannu. Bydd y tîm yn rhoi gwybod i bartneriaid pan fydd y daflen hon ar gael.

## Gwella mynediad at sgrinio i bobl yn y system gyfiawnder

Mae canllaw sgrinio wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru.

Mae'r adnodd hwn ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd wedi bod yn y system gyfiawnder, neu sydd ynddi ar hyn o bryd. Mae'r canllaw yn nodi sut y gall pobl gael gwybodaeth am wasanaethau sgrinio GIG Cymru a sut y gallant gymryd rhan ynddynt. Fe'i datblygwyd ar sail adborth staff sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth carchardai a phrawf, a thrwy ymgysylltu â phartneriaid yn y trydydd sector.

Bydd yr adnoddau newydd hyn ar gael yn gynnar yn yr hydref.

# Ymgyrchoedd cenedlaethol

Edrychwch ar **Galendr Ymgyrchoedd** 2026 i'ch helpu i gynllunio eich gweithgarwch ymwybyddiaeth o sgrinio ar gyfer yr hyn sy'n weddill o 2026.

Gallwch gefnogi'r ymgyrchoedd drwy wneud y canlynol:

- Hoffi a rhannu postiadau cyfryngau cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar **Facebook** ac **Instagram**.
- Lawrlwytho a rhannu **adnoddau sgrinio** .
- Arddangos posteri sgrinio a dosbarthu cardiau z mewn digwyddiadau i gefnogi'r sgyrsiau am sgrinio.




I archebu stociau bach o adnoddau, cysylltwch â'r **Tîm Ymgysylltu â Sgrinio.**



# Addysg yn y Gymuned

Ewch i'r **dudalen Hyfforddiant ac Addysg Gymunedol** i gael rhestr o ddyddiadau hyfforddiant ymwybyddiaeth o sgrinio ar gyfer 2026/27. Cliciwch ar y ffurflen archebu i ddewis eich dyddiad a chwblhewch y ffurflen fer.

Mae'r hyfforddiant ar-lein hwn ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a llesiant ac sydd â rôl weithredol yn ei hyrwyddo. Drwy wneud yr hyfforddiant, byddwch yn dysgu mwy am raglenni sgrinio GIG Cymru a byddwch yn gallu cefnogi sgyrsiau ynghylch sgrinio o fewn eich cymuned.

## Cysylltu â ni

Cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu â Sgrinio os:

- oes gennych sylwadau neu awgrymiadau am y bwletin hwn;
- hoffech drafod gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o sgrinio; neu os
- hoffech rannu eich profiad o sgrinio. Gall hyn helpu eraill sy'n ystyried manteisio ar y cynnig sgrinio.

Ymgysylltu.sgrinio@wales.nhs.uk

**I gael rhagor o wybodaeth am raglenni sgrinio'r GIG a gynigir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ewch i'r wefan.**

# Screening Matters

## Our screening website has changed





Public Health Wales has refreshed its website. The new site has undergone significant improvements, making it easier and quicker for people to find the information they need. The site is accessible and designed so that information is clear, easy to understand and simple to use on any device.

As a result of this refresh the screening webpages have changed. To make sure you always get the right information:

- use the website search function to find the latest screening information;
- check out the Resources section on each of the screening programme webpages to find screening leaflets and accessible formats e.g. BSL and Easy Read information;
- update any saved bookmarks or links you use so you have the screening pages saved to your favourites; and
- visit the new pages to check you have the most accurate information quickly when you need it.

Help us improve the website by sharing your feedback using the form at the top of the webpage.
[Screening - Public Health Wales]

## Lung Screening Wales update



The lung screening project team is working towards introducing a national lung cancer screening programme in Wales, with rollout planned from April 2028. This programme will be phased in over several years.

Work is progressing to deliver across a wide range of workstreams, which include:

- **Identifying the eligible participants:** The programme aims to develop a national approach, to inviting eligible participants, based on their age and smoking history.
- **Procurement:** A number of significant procurement projects are underway, including the digital information management systems, CT scanning and mobile unit requirements.
- **Workforce:** New teams are being established. The programme is currently developing recruitment plans and job descriptions needed to deliver lung screening in Wales.
- **Clinical pathways and quality assurance:** Protocols, standards and oversight arrangements are being established to ensure that the programme is delivered to the highest standards.
- **Working with partners:** Engagement with partners has been a key part of the programme to date and this will continue going forward. This includes working with Health Boards, Digital Health Care Wales, and others needed to design and deliver the service. Teams are also working with the third sector and the public to develop supporting resources. As we move forward, we will be working with partners to raise awareness of this new programme.

# Learning Disability Champions

Public Health Wales Screening Division has introduced Learning Disability Champions across each of the screening programmes.  The champions will play an important role in helping to improve how we support people with a learning disability across our services.  Our champions are staff from across the organisation who are keen to improve people's experiences of screening.  This is a key step in strengthening our commitment to reducing health inequalities and ensuring our services are inclusive and accessible to all.  To find out more about the Learning Disability Champions, you can contact the individual screening programmes.

# New Resources




## New diabetic eye screening video

A new diabetic eye screening video '**Diabetic Eye Screening – What to Expect**' is available in **Welsh**, **English** and **British Sign Language (BSL)**. The video has been produced by the Screening Engagement Team, Diabetic Eye Screening Wales and supported by the Tackling Diabetes Together programme, who are part of Public Health Wales.  The video helps people understand what diabetic eye screening is and why it is important.  It shows the diabetic eye screening journey from invitation to results, explaining how diabetic eye screening photographs are taken and what support is available.

You can help by:

- Sharing the video with your community networks.
- Showing the video to service users and patients.
- Raising awareness of the video on your social media platforms.


For more information about Diabetic Eye Screening visit their **webpage**.




## Community leaflet

The Screening Engagement Team is developing a new community leaflet that tells people about screening and the programmes available.  This will add to the suite of **resources** already available for community partners to access and share.  The team will let partners know when this is available.

## Improving access to screening for people in the justice system




A screening guide has been developed in partnership with the His Majesty's Prisons and Probation Service colleagues in Wales.

This resource is for services and organisations who support people who have been in or are currently within the justice system.  The guide sets out how people can find out about and take part in NHS screening in Wales.  It has been developed based on feedback from staff working with the prison and probation service and engagement with third sector partners.

These new resources will be available early autumn.

# National campaigns




Check out the 2026 **Campaign Calendar** to help you plan your screening awareness activities for the rest of 2026.

You can support campaigns by:

- Liking and sharing the Public Health Wales social media posts on **Facebook** and **Instagram**.
- Downloading and sharing **screening resources**.
- Displaying screening posters and giving out z cards at events to support screening conversations.

To order small stocks of resources, get in touch with the **Screening Engagement Team**.



# Community education

Visit the **Community Training and Education** page for a list of 2026/27 Screening Awareness training dates. Click on the booking form to select your preferred date and complete the short form.

This online training is for people who work and have an active role promoting health and wellbeing. By attending, you will learn more about the NHS screening programmes in Wales and be able to support screening conversations within your community.

## Getting in touch

Contact the Screening Engagement Team if you:

- have any comments or suggestions about this bulletin;
- would like to discuss working in partnership to raise awareness of screening; or
- would like to share your experience of screening. This can help others who are thinking about taking up their screening offer.

**screening.engagement@wales.nhs.uk**

**For further information about NHS screening programmes offered by Public Health Wales visit the website.**